

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD YR A478 O FEGELI I DREDEML)
(TERFYN CYFLYMDER 30MYA/40MYA) 2020**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;
3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 50 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd a nodir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn;
4. Caiff Atodlen 1 / Cyf.1.92.0 / Lleoliad A478 i 'Orchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a Therfyn Cyflymder o 30mya) 2017' ei dirymu cyn belled ag y mae'n ymwneud â'r darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
5. Mae Atodlen 3 eitem i) i 'Orchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol, Begeli) (Ffordd Gyfyngedig / Terfyn Cyflymder 30mya a 40mya) 2016' drwy hyn wedi ei dirymu;
6. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffordd yr A478 o Fegeli i Dredeml) (Terfynau Cyflymder 30mya / 40mya a 50mya) 2020' a daw i rym ar y 26ain diwrnod o Hydref Dwy Fil ac Ugain.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y 21ain diwrnod hwn o Hydref Dwy Fil ac Ugain.

Gan hynny gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO yma

ym mhresenoldeb:-

Jwi Davie, Solicitor

Llofnodwr Awdurdodedig



Atodlen 1
Terfyn cyflymder 30mya

Ffordd
A478 Tredeml

Hyd
o bwynt 270 metr i'r de o'r gyffordd â'r A4115, tua'r
de am 197 metr.

Atodlen 2
Terfyn cyflymder 40mya


A478 Begeli

o bwynt 90 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Broom
Lane, tua'r gogledd hyd at bwynt 55 metr i'r gogledd
o'r gyffordd â Ryelands Lane.

Atodlen 3
Terfyn cyflymder 50mya

A478 Begeli i Dredeml

o bwynt 55 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ryelands
Lane, tua'r gogledd hyd at bwynt 467 metr i'r de o'r
gyffordd â'r A4115 yn Nhredeml.



Pembrokeshire County Council
Directorate of Transportation & Environment
County Hall
Haverfordwest
SA61 1TP

Title
A478 Templeton to Begelly
Speed Limit Review

Scale:

Date:

Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Pembrokeshire CC - Licence Number 100023344.